Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

## Papur Tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) yr Economi, Ynni a Chynllunio

26/11/2025

# Cynnwys

**1. Ynni ........ 3**

Ynni Gwyrdd ........ 3

Ynni Cymru ........ 6

Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) ........ 6

Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW) ........ 7

**2. Porthladdoedd a Meysydd Awyr ........ 8**

Porthladdoedd ........ 8

Maes Awyr Caerdydd ........ 9

Cynllunio ........ 11

# 1. Ynni

## Ynni Gwyrdd

***Allwch chi nodi pa brosiectau a rhaglenni penodol sy'n cael eu cefnogi o dan y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ynni gwyrdd? Beth fydd y cynnydd yn y gronfa cyllideb adnoddau?***

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Ynni Gwyrdd ym Mhrif Grŵp Gwariant yr Economi, Ynni a Chynllunio yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisïau a rhaglenni sy'n cyfrannu at darged Llywodraeth Cymru, sef cynhyrchu digon o drydan glân o ffynonellau adnewyddadwy i ddiwallu'r hyn sy'n cyfateb i'r galw am drydan yng Nghymru erbyn 2035, a sicrhau bod o leiaf 1.5 GW o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol erbyn 2035.

Ar hyn o bryd, mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Ynni Gwyrdd yn cefnogi'r canlynol:

**Timau Cynllunio Ynni Lleol a Chyflawni Ynni Rhanbarthol**

Cymru yw'r rhan gyntaf o'r DU i sicrhau darpariaeth genedlaethol Cynlluniau Ynni Ardal Leol (CYAL) system gyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth i alluogi pob un o'r 22 awdurdod lleol i gynhyrchu CYAL ar gyfer eu hardal, gan sicrhau bod gan bob rhan o Gymru ddarlun clir o'r ffyrdd y gallant ddarparu system ynni lân a dibynadwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda'r pedwar rhanbarth a'r holl awdurdodau lleol, gan ddefnyddio methodoleg a ddyluniwyd gan Energy Systems Catapult (ESC), a oedd yn gweithredu fel cynghorydd technegol ar draws y rhaglen. Roedd hyn yn sicrhau cysondeb, trylwyredd technegol, a dull systemau cyfan. Mae'r cynlluniau'n ymdrin ag effeithlonrwydd ynni, datgarboneiddio gwres, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, a gofynion rhwydwaith, ac maent yn dangos i ba raddau y mae angen newid. Maent hefyd yn cynnig opsiynau ar gyfer cyflawni. Bydd angen rhagor o adnoddau ar y timau rhanbarthol a lleol i ddatblygu prosiectau y gellir buddsoddi ynddynt.

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Ynni Gwyrdd yn ariannu timau cyflenwi ynni rhanbarthol sy'n gyfrifol am oruchwylio a helpu i gyflawni'r cynlluniau ar draws y sector.

**Trydan Gwyrdd Cymru**

Sefydlodd Llywodraeth Cymru y cwmni datblygu ynni adnewyddadwy cyntaf sy'n eiddo i'r wladwriaeth yn y DU.  Mae Trydan Gwyrdd Cymru (Trydan), a sefydlwyd yn 2024, yn gweithio tuag at ddarparu 1GW ychwanegol o ynni glân a gynhyrchir yn adnewyddadwy i Gymru erbyn 2040, gan sicrhau bod mwy o fanteision cynhyrchu ynni yn cael eu cadw yng Nghymru. Yr Is-adran Ynni yw tîm partneriaeth Trydan.

Mae Trydan wedi asesu'r cyfleoedd ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ac mae ganddo lif o brosiectau posibl, gyda chwech wrthi'n cael eu datblygu. Lansiwyd y tri phrosiect cyntaf ar 10 Gorffennaf 2025 ac mae tîm Trydan nawr yn datblygu asesiadau amgylcheddol manwl, gwaith peirianneg ac ymgysylltu â'r cyhoedd, gan arwain at gyflwyno ceisiadau cynllunio, erbyn 2027 mae'n debyg:

- Fferm Wynt Glyn Cothi, Sir Gaerfyrddin, hyd at 162MW
- Fferm Wynt Clocaenog Dau, Sir Ddinbych, hyd at 132 MW
- Fferm Wynt Carreg Wen, Rhondda Cynon Taf, hyd at 108 MW

Gallai'r safleoedd i gyd gynhyrchu 400 MW o bŵer, gyda'r potensial i gynhyrchu hyd at 400 MW o drydan glân - digon i bweru 350,000 o anghenion trydan cyfartalog blynyddol cartrefi yng Nghymru. Mae hynny tua chwarter cartrefi Cymru.

Bydd safle solar arall ar dir Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Bydd Trydan yn gwmni datblygu ynni adnewyddadwy enghreifftiol, gan gadw gwerth yng Nghymru, gwrando ar gymunedau lleol, a gwella'r amgylchedd lleol.

**Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru**

Mae Is-adran Ynni Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'r Is-adran Newid Hinsawdd, yn gweinyddu ac yn darparu Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES). Mae'r Is-adran Ynni yn rheoli'r cymorth i gynlluniau datblygu ynni cymunedol a chymorth strategol i gyflawni'r cynllun ynni.

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i gymunedau drwy gymorth gan swyddogion datblygu a mynediad at y Gronfa Benthyciadau Ynni Lleol (LEF) a'r Cynllun Grantiau Ynni Lleol (LEG). Sefydlwyd LEF yn 2016 i ddarparu benthyciadau datblygu ac adeiladu i gymunedau ac mae'n cael ei weithredu ar ein rhan gan Fanc Datblygu Cymru. Sefydlwyd LEG yn 2021 i ategu'r LEF, gan nad oes llawer o brosiectau ar raddfa fach yn fasnachol hyfyw. Mae'r grant yn galluogi cyflawni manteision amgylcheddol a chymdeithasol y cynlluniau hyn. Mae'r cynnig cyfun o grant a benthyciad yn darparu cynnig ariannol hyblyg. Mae Grantiau Ynni Lleol, a'r Gronfa Ynni Lleol, yn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi mudiadau cymunedol, mentrau cymdeithasol a modelau perchnogaeth leol.

**Ynni Cymunedol Cymru (CEW)**

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant craidd i Ynni Cymunedol Cymru, sefydliad aelodaeth nid-er-elw sy'n cefnogi ac yn cynrychioli prosiectau ynni cymunedol yng Nghymru. Sefydlwyd Ynni Teg (YT), cangen ddatblygol y bartneriaeth, i weithredu fel datblygwr ar gyfer cymunedau nad ydynt yn gallu datblygu prosiectau eu hunain, yn enwedig mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Mae Ynni Cymunedol Cymru yn gweithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) ac Ynni Cymru, gan ddarparu cymorth gwahanol ac ategol i gymunedau. Er bod Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth technegol a mynediad at gyllid i grwpiau, a bod Ynni Cymru yn gweithio gyda phrosiectau ar fodelau busnes arloesol, mae Ynni Cymunedol Cymru yn cynrychioli'r sector ac yn ei ddatblygu, gan ddarparu cymorth a her i ddatblygu'r uchelgais ar y cyd.

**Cymorth Polisi**

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Ynni Gwyrdd yn ariannu'r gwaith o gynhyrchu tystiolaeth, fel yr adroddiadau Cynhyrchu Ynni yng Nghymru a'r Galw am Ynni yng Nghymru, sy'n darparu gwybodaeth am y galw a'r defnydd o ynni ar lefel Cymru.

Mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Ynni Gwyrdd wedi cael cynnydd o £33,000 yn 2026-27 o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27 i gefnogi costau cyfraniadau Yswiriant Gwladol a chyflogau.

***Beth yw'r dyraniadau cyllideb adnoddau a chyfalaf ar gyfer Trydan Gwyrdd Cymru?***

Y dyraniad refeniw cyffredinol ar gyfer Trydan Gwyrdd Cymru ym mlwyddyn ariannol 2025-26 yw £6,447,268. Rydym yn disgwyl dyrannu lefelau tebyg o gyllid i Trydan ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Nid oes dyraniad cyfalaf ar gyfer Trydan ym mlwyddyn ariannol 2026-27 gan fod disgwyl i gyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf fod yn refeniw yn unig. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Trydan i sicrhau bod y cyllid refeniw hwn yn cael ei ddyrannu'n effeithiol ar draws y portffolio er mwyn gwneud y mwyaf o gynnydd prosiectau yn y gyllideb, yn dibynnu ar anghenion datblygu, mynediad at gadwyni cyflenwi ac adborth gan ymgyngoreion.

***Beth yw'r dyraniadau penodol ar gyfer pob un o'r tri phrosiect a gyhoeddwyd hyd yma?***

Mae'r tri phrosiect a gyhoeddwyd hyd yma yn rhan o bortffolio mwy o ddatblygiadau posibl y mae Trydan yn eu harchwilio. Gan adlewyrchu'r gwaith ehangach hwn a bod costau datblygu prosiectau yn fasnachol sensitif, nid yw'n briodol cyhoeddi costau manwl ar lefel prosiect ar hyn o bryd.

***Rydych chi wedi dweud o'r blaen eich bod yn disgwyl gweld cynnydd yn nifer y prosiectau ynni adnewyddadwy sy'n gwneud cais llwyddiannus am Gontractau Gwahaniaeth. Sut mae dyraniadau o dan y BEL Ynni Gwyrdd yn cefnogi hyn?***

Nid yw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Ynni Gwyrdd yn ariannu prosiectau sy'n gwneud cais am Gontractau Gwahaniaeth yn uniongyrchol.  Mae prosiectau sy'n dewis mynd ar drywydd Contractau Gwahaniaeth yn gwneud hynny'n annibynnol ar gymorth ariannol neu gymorth gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Ynni Gwyrdd yn ariannu Bargen y Sector Ynni Adnewyddadwy, y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio arni gyda datblygwyr ynni adnewyddadwy a rhanddeiliaid eraill, i ddatblygu dull gweithredu ar y cyd ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy yn fwy syml a buddiol yng Nghymru.

## Ynni Cymru

***Sut mae dyraniadau'r gyllideb yn adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru i 1 GW o gapasiti cynhyrchu ynni adnewyddadwy fod dan berchnogaeth leol erbyn 2030?***

Mae'r targedau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 1 GW o gynhyrchu dan berchnogaeth leol yn agos at gael eu cyflawni, a dyna pam mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r uchelgais i 1.5 GW erbyn 2035. Roedd adroddiad diwethaf Cynhyrchu Ynni yng Nghymru, gan ddefnyddio data 2023, yn nodi bod 899 MW o gynhyrchu trydan a gwres dan berchnogaeth leol yng Nghymru. Mae cefnogaeth Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, Ynni Cymru ac Ynni Cymunedol Cymru, ochr yn ochr â gwaith caled perchnogion prosiectau lleol, i gyd yn cyfrannu at gyflawni'r targed hwn.

***Faint o brosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol ydych chi'n bwriadu eu cefnogi drwy Ynni Cymru yn 2026-27?***

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cymorth i 48 o brosiectau ynni lleol clyfar newydd yn 2025-26 drwy Ynni Cymru. Y nod yw y byddai Llywodraeth Cymru yn gallu cefnogi nifer tebyg o geisiadau o ansawdd uchel yn 2026-27.

## Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES)

***Beth yw eich asesiad presennol o gynnydd tuag at sector cyhoeddus sero net erbyn 2030, ydych chi'n dal yn disgwyl cyrraedd yr uchelgais hwn?***

Mae datgarboneiddio'r sector cyhoeddus yn dal yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae uchelgais Sero Net 2030 wedi ysgogi dulliau gweithredu ac arweinyddiaeth sylweddol ar draws cyrff cyhoeddus, gan sbarduno newid systematig a manteision mesuradwy ar draws yr ystâd, y fflyd a defnydd tir. Mae'r cynnydd hyd yma yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni i eraill ledled Cymru, modelu rôl a dylanwadu ar newid ehangach yn ogystal â meithrin gallu a chapasiti'r farchnad.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i wireddu'r uchelgais hon drwy fentrau fel Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru ac rydym yn parhau i gydweithio â'r sector cyhoeddus. Rydym yn edrych ymlaen at ganfyddiadau adroddiad dilynol Archwilio Cymru y flwyddyn nesaf ar Baratoi'r Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 er mwyn cyfrannu at ein gwaith cynllunio yn y dyfodol.

***Gan mai'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig sy'n gyfrifol am gyllideb Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, sut yr ydych yn gweithio i sicrhau cysondeb â'ch blaenoriaethau ac osgoi dyblygu?***

Rwy'n gweithio'n agos iawn gyda'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd i gysoni ein gweithgareddau ar draws ein portffolios. Mae ein hadrannau priodol yn gweithio mewn partneriaeth i gytuno ar flaenoriaethau cyflawni Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i sicrhau bod ein blaenoriaethau'n cyd-fynd ac i osgoi unrhyw risg o ddyblygu.

## Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW)

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, dyrannwyd £400,000 i NICW o'r BEL Cynllunio a Rheoleiddio. Yn dilyn eich adolygiad o'r Comisiwn, rydych wedi datgan mai Llywodraeth newydd Cymru fydd yn ystyried "rôl a strwythur y comisiwn yn y dyfodol".

***A allwch gadarnhau a ddyrannwyd cyllid i NICW ar gyfer 2026-27, ac os felly, beth yw cyfanswm y dyraniad a ble mae hyn o fewn eich cyllideb?***

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27, mae cyllideb NICW yn parhau i gael £400,000, wrth aros am ganlyniad penderfyniadau ynghylch dyfodol y Comisiwn sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth nesaf Cymru. Mae hyn yn rhan o MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio, fel rhan o'r gyllideb Gwariant Cynllunio a Rheoleiddio, BEL 2250.

***A yw'r estyniad i delerau'r Comisiynydd presennol hyd at fis Medi 2026 yn cael ei ariannu o unrhyw ddyraniad newydd ar gyfer 2026-27 neu o danwariant mewn blynyddoedd blaenorol.***

Mae'r gyllideb o £400,000 a ddyrannwyd yn y BEL Gwariant Cynllunio a Rheoleiddio 2250 ym mlwyddyn ariannol 2026-27 yn cynnwys ffioedd Comisiynwyr fel y mae wedi'i wneud ers i NICW gael ei adnewyddu ym mlwyddyn ariannol 2021-22.

# 2. Porthladdoedd a Meysydd Awyr

## Porthladdoedd

***Roedd eich papur i ni ym mis Rhagfyr 2024, a oedd yn ymateb i'n cwestiynau ar gyllideb ddrafft 2025-26, yn tynnu sylw at y ffaith bod eich cyllideb yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Forol a Phorthladdoedd, ochr yn ochr â Strategaeth Cludo Nwyddau - i'w cyhoeddi "cyn diwedd tymor y Senedd hon". Gyda hyn mewn golwg, allwch chi: roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y ddwy strategaeth;***

Rydym yn cydnabod bod y cynllun yn hwyr, ond gyda phorthladd Caergybi yn cau ychydig cyn y Nadolig y llynedd a'i effaith glir ar y diwydiant, roedd yn hanfodol ein bod yn ymateb i'r flaenoriaeth honno ac yn aros am gasgliad Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Thasglu Môr Iwerddon Gogledd Cymru (a sefydlwyd fel ymateb i'r cau hwnnw) cyn dechrau ar y cynllun hwn. Daeth chweched cyfarfod a chyfarfod olaf y tasglu, i ystyried a chytuno ar argymhellion y Tasglu, i ben ar 20 Tachwedd. O ganlyniad i dasglu Môr Iwerddon ac adroddiad y Ddadl ar Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: **Difrod Storm a Chau Porthladd Caergybi - Darganfyddiadau Cychwynnol ym mis Gorffennaf**, daeth yn amlwg y byddai'n well gan randdeiliaid weld y Llywodraeth yn cyhoeddi cynllun cludo Nwyddau a logisteg ar y cyd, yn ogystal â strategaeth porthladdoedd a morol. O ganlyniad, un o brif argymhellion Tasglu Môr Iwerddon yw bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi set o flaenoriaethau ar gyfer cynllun porthladdoedd a morol, cludo nwyddau a logisteg, cyn diwedd tymor y Llywodraeth i baratoi ar gyfer y llywodraeth nesaf. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, bydd hefyd yn sefydlu cyngor cludo nwyddau ac ymarfer mapio arosfannau lorïau ar gyfer Cymru, a gyhoeddir yn y flwyddyn newydd.

Mae'r gwaith paratoi ar gyfer y cynllun eisoes wedi dechrau. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth a minnau wedi cytuno ar gwmpas drafft ar gyfer y gwaith, yn dilyn ymgynghoriad mewnol. Mae'r cwmpas yn cael ei fireinio ar hyn o bryd yn dilyn ymgynghoriad allanol ac adborth gan randdeiliaid allweddol. Bydd y ddogfen gwmpasu hon wedyn yn cael ei datblygu'n set o flaenoriaethau. Cyn diwedd tymor y Llywodraeth, byddwn yn cyhoeddi'r set hon o flaenoriaethau ar gyfer y cynllun porthladdoedd a morol, cludo nwyddau a logisteg, i baratoi ar gyfer y Llywodraeth nesaf.

Bydd y ddogfen a gyhoeddir yn galluogi'r Llywodraeth nesaf i weld yn glir beth yw blaenoriaethau'r sector a gallu eu symud ymlaen wrth i'r gwaith paratoi gael ei wneud.

Rydym hefyd wedi cytuno â'r argymhelliad i gyflwyno'r gwaith o greu Cyngor Logisteg newydd yng Nghymru a chomisiynu ymgynghorwyr i fapio cyfleusterau presennol ar ochr y ffordd a lleoliadau parcio Cerbydau Nwyddau Trwm (HGV) sy'n cael eu defnyddio'n aml yng Nghymru.

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu rhywfaint o waith paratoi ar gyfer ffurfio Cyngor Logisteg Cymru. Rydym yn gweld Cyngor Logisteg Cymru fel dilyniant naturiol i'r tasglu hwn. Rydym yn disgwyl y bydd hyblygrwydd a modd gwneud newidiadau i'r aelodaeth hyd yn oed ar ôl y cyfarfod cyntaf. Mae cylch gwaith y Cyngor yn debygol o fod yn eang felly mae

hyblygrwydd yn allweddol. Gobeithiwn allu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr aelodaeth yn fuan.

***Amlinellwch sut bydd eich dyraniadau cyllideb drafft yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhain yn ystod 2026-27, gan gynnwys manylion y BEL(s) perthnasol a sut mae/bydd y dyraniadau'n cael eu blaenoriaethu i adlewyrchu cynnwys y strategaethau?***

Ni ellir mesur dyraniad cyllid ar gyfer datblygu'r cynllun porthladdoedd a morol, cludo nwyddau a logisteg yn llawn ar hyn o bryd, nes ein bod wedi cwblhau cwmpas y gwaith yn dilyn adborth allanol. Rydym wedi cytuno ar set o flaenoriaethau a chostau cysylltiedig i ddatblygu'r cynllun. Bydd hyn yn cael ei drosglwyddo i'r Llywodraeth nesaf i'w ystyried, gan fwrw ymlaen â'r cynllun a dyrannu'r gyllideb ar gyfer ei ddatblygu'n llawn. Bydd y gwaith o fapio gwariant presennol ar gyfleusterau ochr y ffordd o hyd at amcangyfrif uchafswm o £100,000 heb gynnwys TAW, ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, yn dod gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a chyllideb refeniw bresennol Gogledd Cymru ar gyfer BEL 1883 Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol yn y MEG Trafnidiaeth.

Cyfanswm y gyllideb refeniw ar gyfer BEL Cysylltedd Cenedlaethol a Rhyngwladol 1883 yw £4.1m ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Bydd unrhyw waith ymgynghori ychwanegol heb ei feintioli sydd ei angen rhwng nawr a chyhoeddi'r set o flaenoriaethau yn cael ei ddyrannu o'r BEL hwn. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro yn ystod gweddill blwyddyn ariannol 2025-26.

## Maes Awyr Caerdydd

***Sut y bydd dyraniadau'r gyllideb ddrafft yn eich portffolio yn cefnogi datblygu Maes Awyr Caerdydd, ac yn benodol cyflawni'r strategaeth hirdymor?***

Bydd dyraniadau'r gyllideb ddrafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 yn cefnogi'r maes awyr drwy ddenu a thyfu busnesau hedfan ac awyrofod sy'n gysylltiedig â'r Maes Awyr, a chefnogi rhaglen wedi'i thargedu o ddatblygu gwasanaethau awyr, gan ganolbwyntio ar gysylltedd teithwyr â nifer fach o ganolfannau awyr byd-eang a chanolfannau economaidd sydd o bwys i Gymru.

***Cadarnhad o ba BEL(s) yn eich Prif Grŵp Gwariant sy'n cynnwys dyraniadau ar gyfer pecyn cymhorthdal y Maes Awyr?***

Bydd BEL 1240 Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd o fewn MEG yr Economi, Ynni a Chynllunio yn cael ei defnyddio i ddarparu dyraniadau ar gyfer pecyn cymhorthdal y Maes Awyr.

***Manylion ynghylch sut mae cyfran gyntaf pecyn cymhorthdal gwerth £20m y Maes Awyr, a ddyrannwyd yn 2025-26, yn cael ei gwario, gan gynnwys sut mae hyn yn cael ei rannu rhwng y ddau "becyn", sut mae ei effaith yn cael ei gwerthuso a sut mae perfformiad y Maes Awyr yn cael ei reoli ar sail canlyniadau'r gwerthusiad hwnnw?***

Mae'r Maes Awyr wedi darparu rhagolwg dangosol i ni ar gyfer sut bydd cyfran gyntaf pecyn cymhorthdal y maes awyr, a ddyrannwyd ym mlwyddyn ariannol 2025-26, yn cael ei gwario, gan gynnwys sut mae hyn yn cael ei rannu rhwng y ddau becyn.

- Dyrannwyd £17.2m ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf o dan: Pecyn 1: Datblygu a gwella busnes nad yw'n ymwneud â theithwyr,
- Dyrannwyd £2.8m ar gyfer buddsoddiad refeniw o dan; Pecyn 2: Datblygu llwybrau awyr masnachol i deithwyr.
- Mae telerau'r cytundeb grant ar gyfer y pecyn buddsoddi yn ei gwneud yn ofynnol i'r Maes Awyr ddarparu adroddiad ariannol, bob chwe mis, i gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i fanylion eu gwariant gwirioneddol o'r cyllid ar gyfer y 6 mis blaenorol ar gyfer Pecyn 1: Datblygu a gwella busnes nad yw'n ymwneud â theithwyr, a Phecyn 2: Datblygu llwybrau awyr masnachol i deithwyr. Defnyddir yr wybodaeth hon i werthuso sut mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio a'r cynnydd cyffredinol tuag at y targedau a nodir yn y cytundeb grant.
- Nid ydym wedi derbyn nac arfarnu adroddiad chwech misol cyntaf y maes awyr eto.

***Manylion ynghylch sut bydd gwerthuso dyraniad cymhorthdal 2025-26 yn llywio'r dull gweithredu ar gyfer dyraniad 2026-27.***

Mae'r cytundeb grant yn cynnwys proffil talu dangosol ar gyfer y pecyn buddsoddi dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd dyraniad blynyddol y gyllideb yn cael ei fonitro'n agos fel rhan o adroddiadau monitro chwech misol y maes awyr. Mae gennym hawl i adolygu telerau ac amodau cytundeb grant y maes awyr o bryd i'w gilydd ac ystyried unrhyw amrywiadau angenrheidiol a/neu resymol neu ofynion ychwanegol, a gall y rhain gynnwys addasiadau i ddyraniadau'r gyllideb flynyddol.

***Sut bydd dyraniad 2026-27 yn cael ei rannu rhwng y ddau becyn?***

Penderfynir ar hyn unwaith y byddwn wedi gwerthuso adroddiad chwe-misol cyntaf y maes awyr pan fyddant yn cynnwys manylion eu gwariant tybiedig o'r cyllid am y 6 mis nesaf wedi'i rannu rhwng y ddau becyn.

***Yng ngoleuni sylwadau'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, sut rydych chi'n asesu ac yn rheoli'r risg gyfreithiol i'r pecyn cymhorthdal ac i ddatblygiad y Maes Awyr, gan gynnwys eich dull o gynllunio wrth gefn?***

Rwy'n cydnabod y bydd gan aelodau'r Pwyllgor lawer o gwestiynau ynghylch y goblygiadau i ddyfodol y Maes Awyr sy'n deillio o'r her gyfreithiol hon. Fodd bynnag, gan fod Llywodraeth Cymru bellach mewn proses ymgyfreitha, bydd Gweinidogion yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallant ei ddarparu i'r Senedd a'i Phwyllgorau o ran diweddariadau ac ymatebion i gwestiynau. Mae'n hanfodol i ni adael i'r broses gyfreithiol

annibynnol fynd rhagddi mewn trefn briodol. Mae hyn yn cyd-fynd â sylwedd canllawiau'r Senedd ar baratoi tystiolaeth ysgrifenedig.

Byddaf yn ymateb i gwestiwn sydd heb ei ateb gan y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ar wahân pan fydd gennym eglurder ynghylch canlyniad yr her.

## Cynllunio

Mae'r cyllid adnoddau ar gyfer y Cam Gweithredu Cynllunio a Rheoleiddio wedi cynyddu ychydig o £8.91m i £9.02m. Mae Adroddiad Manwl y Gyllideb Ddrafft 2026-2027 yn datgan bod £5.1m yn cael ei ddyrannu i fynd i'r afael â chapasiti ac oedi yn y system gynllunio ac y bydd buddsoddiad yn parhau mewn gwasanaeth cynllunio a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol. Mae hefyd yn datgan bod ffioedd ceisiadau cynllunio wedi cynyddu 50% ar gyfartaledd.

***A yw'r £5.1m i gyd wedi'i gynnwys yn y £9.02m a ddyrannwyd i Gynllunio a Rheoleiddio? Os na, a allech roi dadansoddiad o ble y daw'r cyllid?***

Mae'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2025-26 i fynd i'r afael â chapasiti ac oedi yn y system gynllunio wedi cael ei ymgorffori yng nghyllideb sylfaenol 2026-27 o £9.02m.

***Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o effaith y £5.1m ar fynd i'r afael â chapasiti ac oedi yn y system gynllunio a beth yw'r canlyniadau disgwyliedig?***

Mae'r cyllid a ddyrannwyd fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon wedi cael ei dargedu at feysydd lle mae capasiti cyfyngedig, gwelliannau i'r system gyfan a chefnogi gweithio rhanbarthol ar y cyd. Ar ben hynny, bydd y cynnydd sylweddol mewn ffioedd ceisiadau cynllunio o 1 Rhagfyr 2025 ymlaen yn darparu cynnydd parhaol yn yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol. Mae rhagor o fanylion am y camau i'w cymryd yn y rhaglen waith ar gael isod.

Mae nifer o'r camau gweithredu yn gofyn am recriwtio staff ychwanegol i fynd i'r afael â chyfyngiadau hysbys. Mae'r broses recriwtio wedi cael ei chynnal yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd yn cymryd amser i'r broses recriwtio gyfrannu at welliannau i'r gwasanaeth. Yn yr un modd, mae rhai o'r gwelliannau i'r system gyfan yn y camau cychwynnol a bydd yn cymryd amser i'r manteision gael eu gwireddu.

Er mwyn sicrhau bod modd mesur gwelliannau i systemau yn y dyfodol, mae Fframwaith Perfformiad Cynllunio Cymru wedi cael ei ailgyflwyno ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26.

***Pa gamau fydd yn cael eu cymryd yn y rhaglen waith hon?***

Bydd y camau gweithredu canlynol ar adnoddau yn cael eu cymryd:

*Ymchwil y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI)*

- Mae sicrhau bod gan Gymru ddigon o gynllunwyr sydd â'r sgiliau iawn yn y meysydd iawn yn hanfodol i gyflawni ein polisïau. Rwyf wedi comisiynu'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol i ymgymryd â darn o waith ar 'gynllunio'r gweithlu'. Bydd yn rhoi darlun manwl o'r sefyllfa o ran capasiti, adnoddau a sgiliau ar draws y

gwasanaethau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau cynllunio lleol, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'n Cyfarwyddiaeth Gynllunio ein hunain. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hwn yn ddarn pwysig o ymchwil a fydd yn ein galluogi i ddatblygu strategaeth i wella capasiti a chadernid ein gwasanaethau cynllunio a bydd yn sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu cyfeirio at y lle y byddant yn cael yr effaith fwyaf.

*Bwrsarïau - Llwybrau at Gynllunio*

- Mae sicrhau bod gan Gymru ddigon o gynllunwyr sydd â'r sgiliau iawn yn y meysydd iawn yn hanfodol i gyflawni ein polisïau. Er mwyn cynyddu nifer y cynllunwyr sydd ar y gweill, fe wnaethom gymeradwyo £143,000 y flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer Bwrsariaethau Cynllunio Trefol drwy'r Cynllun Llwybrau at Gynllunio sy'n cael ei weinyddu gan CLlLC ar ein rhan.
- Rydym hefyd wedi ymrwymo i ariannu bwrsariaethau ychwanegol y flwyddyn ariannol nesaf. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n canfod y galw o fewn awdurdodau cynllunio lleol.
- Gyda'r cynnydd mewn ffioedd yn dod i rym erbyn diwedd y flwyddyn, rydym yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol ail-fuddsoddi incwm ffioedd ychwanegol yn ôl yn eu gwasanaethau a chofrestru ar gyfer y Cynllun Llwybrau er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan gyllid y Llywodraeth. Gellir talu costau staff o'r cynnydd mewn ffioedd cynllunio, a byddwn yn talu'r costau i raddedigion gael cymhwyster cynllunio ôl-radd.

*Cynlluniau Datblygu Strategol Cynllunio Rhanbarthol / Canolfannau Sgiliau Cynllunio ar y Cyd*

- Rydym wedi darparu cyllid (£110,000) ar gyfer dwy rôl Uwch Gynllunydd i weithio ar raglenni seilwaith ar draws Rhanbarth Gogledd Cymru. Rydym yn annog awdurdodau cynllunio lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i ystyried cynigion tebyg i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau a gwasanaethau a rennir, gan ystyried yr heriau presennol o ran adnoddau, recriwtio a sgiliau.
- Rydym wedi cymeradwyo £400,000 i gymell a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.
- Mae De Ddwyrain Cymru wedi dechrau paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol yn ffurfiol. Mae Gogledd Cymru yn dilyn yr un drefn ac yn ddiweddar maent wedi cwblhau ymgynghoriad ar eu Cytundeb Cyflenwi drafft a rhagwelir Cytundeb Cyflenwi terfynol yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Gyda'i gilydd, mae'r ddau ranbarth wedi hawlio'r £400,000 i ysgogi cynnydd yn y cynllun.
- Rydym yn ystyried cyllid i ysgogi Cynlluniau Datblygu Strategol eraill sy'n cael eu cyflwyno.

Fel y nodwyd uchod, mae cyllid wedi'i dargedu at feysydd lle mae capasiti cyfyngedig, gwelliannau i'r system gyfan a chefnogi gweithio rhanbarthol ar y cyd. Mae'r camau gweithredu allweddol yn cynnwys:

- Comisiynu'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol i ymgymryd â darn o waith ar 'gynllunio'r gweithlu' a fydd yn cael ei gyhoeddi ddechrau'r haf. Bydd yn rhoi darlun manwl o'r sefyllfa o ran capasiti, adnoddau a sgiliau ar draws y gwasanaethau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau cynllunio lleol, *Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru*, Cyfoeth Naturiol Cymru a'n Cyfarwyddiaeth Gynllunio ein hunain. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn. Mae hwn yn ddarn pwysig o ymchwil a fydd yn ein galluogi i ddatblygu strategaeth i wella capasiti a chadernid ein gwasanaethau cynllunio a bydd yn sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu cyfeirio at y lle y byddant yn cael yr effaith fwyaf.

Cyn cwblhau'r ymarfer cynllunio'r gweithlu, er mwyn cynyddu nifer y cynllunwyr sydd ar y gweill, rydym wedi darparu £143,000 o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf ar gyfer Bwrsarïau Cynllunio Trefol drwy'r Cynllun Llwybrau at Gynllunio sy'n cael ei weinyddu gan CLlLC ar ein rhan. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ariannu bwrsariaethau ychwanegol y flwyddyn ariannol nesaf. Gyda'r cynnydd mewn ffioedd yn dod i rym erbyn diwedd y flwyddyn, rydym yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol ail-fuddsoddi incwm ffioedd ychwanegol yn ôl yn eu gwasanaethau a chofrestru ar gyfer y Cynllun Llwybrau er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gynigir gan gyllid y Llywodraeth. Gellir talu costau staff o'r cynnydd mewn ffioedd cynllunio, a byddwn yn talu'r costau i raddedigion gael cymhwyster cynllunio ôl-radd. Bydd y cyllid yn cael ei dalu o BEL Gwariant Cynllunio a Rheoleiddio 2250.

Er mwyn archwilio rôl elfennau digidol a deallusrwydd artiffisial i wella effeithlonrwydd gwasanaethau cynllunio, rydym wedi comisiynu CDPS y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i nodi darpariaeth weithredol a gwelliannau i brofiad defnyddwyr. Mae fersiwn alffa o wasanaeth cyn ymgeisio safonol, sy'n seiliedig ar enghreifftiau o arferion gorau, wedi cael ei gwblhau a'i rannu ag awdurdodau cynllunio. Cyflwynwyd y ddwy garfan gyntaf o hyfforddiant digidol a dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr ym mis Tachwedd 2025. Mae gwaith wedi dechrau ar nodi llinell sylfaen ar gyfer egwyddorion a safonau data a rennir a fydd yn angenrheidiol i lywio'r broses gydweithio yn y dyfodol.

Er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth ranbarthol, rydym wedi darparu cyllid ar gyfer dwy rôl Uwch Gynllunydd i weithio ar raglenni seilwaith ar draws Rhanbarth Gogledd Cymru. Mae gennym gyllid ar gael i gefnogi mentrau ychwanegol gan awdurdodau cynllunio lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau a gwasanaethau a rennir gan ystyried yr heriau presennol o ran adnoddau, recriwtio a sgiliau.

<u>*Meithrin Gallu ym mhenderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru*</u>

Defnyddiwyd elfen o gyllideb Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i gynyddu eu gallu i ddelio â'r cynnydd mewn ceisiadau am brosiectau seilwaith ochr yn ochr â chynnydd arall mewn gwaith achos cynllunio ac amgylcheddol. Yn benodol, mae 15 o swyddi ychwanegol (cyfwerth ag amser llawn) wedi cael eu cyflwyno, gyda'r broses recriwtio wedi'i chwblhau neu ar y gweill.

Bydd y buddsoddiad hwn mewn adnoddau staff yn galluogi Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i barhau i gyflymu amseroedd penderfynu o'r dechrau i'r diwedd ar gyfer Gwaith Achos Seilwaith a chyflwyno gwell gwasanaethau cyn ymgeisio a dilysu i wella ansawdd ceisiadau sy'n symud ymlaen i gael eu harchwilio.

Daw'r drefn Cydsynio Seilwaith newydd i rym ym mis Rhagfyr 2025. Bydd yr adnodd staff ychwanegol yn helpu Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i gynllunio a pharatoi ar gyfer y math newydd hwn o waith achos.

Mae Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn paratoi ar gyfer cynnydd mawr yn Arholiadau'r Cynllun Datblygu Lleol drwy recriwtio a hyfforddi Arolygwyr ychwanegol i ymgymryd â'r gwaith hwn. O 1 neu 2 y flwyddyn, mae gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru 3 CDLl i'w Harholi ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd CDLl Caerdydd ar gael cyn diwedd y flwyddyn ac o leiaf 5 arall yn 2026.

Mae'r gyllideb yn ariannu gwelliannau i Borth Gwaith Achos Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru er mwyn galluogi pob parti i gael gwell gwasanaethau digidol ar gyfer apeliadau a cheisiadau a gyflwynir i Weinidogion Cymru.

***Sut bydd y cyllid a'r camau gweithredu gwerth £5.1m yn cael eu rhannu ar draws Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW), Cyfoeth Naturiol Cymru ac Awdurdodau Cynllunio Lleol?***

Mae'r dyraniadau cyllid ar gyfer 2026-27 wedi cael eu pennu yn unol â blynyddoedd blaenorol, gydag adnoddau'n cael eu cyfeirio'n bennaf at ddau faes allweddol: Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, a Gwariant Cynllunio a Rheoleiddio (BELS). Amlinellir manylion y meysydd gwariant penodol yn yr adran flaenorol.

Yn ogystal â'r gwelliannau i'r system a'r cyllid cydweithredol rhanbarthol y tynnir sylw atynt uchod a fydd o fudd i ddarparu gwasanaethau lleol yn bennaf, bydd cyfran fach o'r gyllideb yn cael ei defnyddio i gryfhau capasiti gwaith achos yn y Gyfarwyddiaeth Gynllunio. Mae dau Uwch Reolwr Cynllunio ychwanegol wedi cael eu recriwtio. Fodd bynnag, mae problemau capasiti yn parhau oherwydd diffyg cynllunwyr tref cymwysedig sy'n gwneud cais am yr ymgyrchoedd recriwtio allanol. Mae dyrchafiadau mewnol hefyd yn golygu bod swyddi gwag sylweddol yn dal i fodoli yn ein tîm prosesu gwaith achos. Rydym wrthi'n recriwtio i lenwi'r swyddi gwag sy'n weddill.

Mae cyllid penodol o fewn MEG CCRA yn cael ei ddyrannu i BEL cymorth grant Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gallu parhau i gefnogi a gwella ffrydiau gwaith penodol i sicrhau bod penderfyniadau cynllunio a seilwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu gwneud yn gyflymach.

***Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o effaith cynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio 50% ar gyfartaledd ar ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio?***

Daeth Rheoliadau Ffioedd newydd i rym ar 20 Hydref ac fe'u cefnogwyd gan Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn ystyried effeithiau'r cynnydd mewn ffioedd ar ddatblygwyr ac awdurdodau cynllunio. Bydd y drefn ffioedd newydd yn dod i rym ar 01 Rhagfyr 2025 a fydd yn galluogi'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r diffyg presennol rhwng cost penderfynu ar geisiadau a'r incwm a geir am ddarparu'r gwasanaeth hwn drwy sicrhau darpariaeth ar gyfer system fwy teg, effeithiol ac effeithlon o ddiweddaru a rhoi cyhoeddusrwydd i ffioedd.

Mae ffioedd wedi cynyddu 50% ar gyfartaledd ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o geisiadau a mwy, cynnydd o 32% mewn ffioedd ar gyfer gwasanaethau cyn ymgeisio, a chynnydd o 23% mewn ffioedd ar gyfer y categorïau hynny nad ydynt yn dod o dan ymchwil ARUP. Yn dilyn y cynnydd hwn, bydd ffioedd yn cael eu diweddaru 10% bob blwyddyn (yn ogystal â chwyddiant) nes bydd y Costau Llawn wedi'u Hadennill (FCR). Ar ôl y pwynt hwn, bydd ffioedd yn cael eu haddasu yn ôl chwyddiant. Bydd y rhan fwyaf o fathau o geisiadau yn cyflawni FCR o fewn 3-5 mlynedd. Dyma'r buddsoddiad mwyaf yn ein gwasanaethau cynllunio dros y blynyddoedd diwethaf.

Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r amserlen ar gyfer cyrraedd sefyllfa o Adennill Costau Llawn. Bydd awdurdodau'n Adennill Costau Llawn ar y rhan fwyaf o fathau o geisiadau o fewn 3 blynedd, tra byddant yn gwneud hynny ar y mathau sy'n weddill ymhen tua 5 mlynedd. Mae'r dull hwn yn cynnwys cynnydd cymedrol a chynyddrannol mewn ffioedd, gan symud ymlaen tuag at nod adennill costau llawn. Ei nod yw cydbwyso'r gwaith o sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu cynllunio ar gyfer y costau hyn a'u hamsugno, ar yr un pryd â chynnig rhyddhad ariannol i awdurdodau cynllunio lleol sy'n cael trafferth.

Mae'r RIA yn esbonio bod ffioedd ceisiadau cynllunio a dderbynnir fel cyfran o incwm y gwasanaeth rheoli datblygu ar hyn o bryd yn amrywio o 17% i 62%. Yn gyffredinol, mae'r 'bwlch ffioedd' yn fwy mewn awdurdodau llai a mwy gwledig nad ydynt yn derbyn ceisiadau mwy i ddarparu cymhorthdal i'r gwasanaeth. Bydd yn cymryd amser i'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd effeithio ar gydnerthedd a chapasiti gwasanaethau awdurdodau cynllunio lleol ac i wasanaethau adfer o'r llinell sylfaen bresennol. Ni ddisgwylir i godiadau mewn ffioedd gau'r 'bwlch ffioedd' yn llwyr ym mhob awdurdod cynllunio lleol, ond bydd yn helpu i'w leihau'n sylweddol.

Dros amser, bydd y cynnydd mewn ffioedd yn cynyddu adnoddau awdurdodau cynllunio lleol yn sylweddol ac yn eu rhoi ar sylfaen ariannol mwy cynaliadwy, gan arwain at benderfyniadau cynllunio cyflymach a mwy effeithiol.